

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd trwy gyfrwng fideo-gynadledda, ddydd Iau, 20 Awst 2020, am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Hugh Irving, Brian Jones a Melvyn Mile

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfreithiwr (AS), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Swyddog Trwyddedu (JT), Rheolwr Gwasanaethau Democratiaidd (SP) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

Roedd y Gohebydd Democratiaeth Leol hefyd yn bresennol o bell er mwyn arsylwi'r cyfarfod.

PWYNT SYLW

Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio a'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol oherwydd pandemig y Coronafeirws, cynhaliwyd y cyfarfod o bell trwy gyfrwng fideo gynadledda ac nid oedd ar agor i'r cyhoedd.

CROESO

Croesawodd y Cyngorydd Hugh Irving, Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu bawb oedd yn bresennol ac aeth ati i gyflwyno pawb. Fe soniodd hefyd am y gweithdrefnau y dylid eu dilyn yn y gwrandawriad, ac roedd y gweithdrefnau wedi cael eu dosbarthu i bawb yn barod.

1 PENODI CADEIRYDD

Cafodd Cyngorydd Hugh Irving ei benodi'n ffurfiol yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad oedd yn rhagfarnu.

3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: ADOLYGU TRWYDDED EIDDO - Y BODUNIG, STRYD FAWR, DYSERTH

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad (wedi'i ddisbarthu'n flaenorol) yn dilyn -

- (i) cais a ddaeth i law gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu trwydded eiddo a ddelir gan Mr Abdulhamit Salih Colakoglu mewn perthynas â Y Bodunig, Stryd

Fawr, Dyserth (copi o'r Drwydded Eiddo bresennol a'r amserlen weithredu gyfredol wedi'u hatodi fel Atodiad A i'r adroddiad);

(ii) Y sail dros adolygu, a nodir yn y cais, yw:

“Methu â hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu, yn enwedig Diogelwch y Cyhoedd ac Atal Trosedd ac Anrhefn.”

Mae manylion llawn y cais i adolygu ynghlwm yn Atodiad B yr adroddiad, ond yn gryno roedd yn ymwneud ag adroddiadau amrywiol fod yr eiddo wedi bod ar agor ar sawl achlysur gan dorri'r rheoliadau sydd mewn grym er mwyn ymateb i bandemig y Coronafeirws pan fu'n rhaid i dafarndai, clybiau a bwytai gau; mae'r Heddlu hefyd yn sôn am dystiolaeth CCTV a'u diffyg hyder yng ngallu rheolwyr yr eiddo i weithredu'n gyfrifol; felly gofynnodd yr Heddlu bod yr eiddo'n cau'n barhaol;

(iii) cyfeiriwyd hefyd at Adolygiad blaenorol gan yr Heddlu arweiniodd at gael gwared ar Oruchwyliwr Safle Dynodedig Mr. Derek Coulton, a chafodd y swydd ei llenwi gan y Goruchwyliwr Safle Dynodedig presennol Mr. Nihat Colakoglu; serch hynny arhosodd Mr Derek Coulton yn Rheolwr oedd yn gyfrifol am redeg yr eiddo o ddydd i ddydd;

(iv) derbyniwyd pedwar sylw yn ymateb i'r hysbysiad cyhoeddus gofynnol ynglŷn â'r cais i adolygu (ynghlwm yn Atodiad C yr adroddiad yma) – Mr. Derek Coulton yn gweithredu fel rhywun â diddordeb, ynghyd â thri llythyr pellach gan bartion eraill â diddordeb, a thra eu bod yn cydnabod y materion a godwyd gan yr Heddlu, roeddynt yn gefnogol i'r eiddo aros agor;

(v) ni chafwyd ymateb i'r cais i adolygu gan Ddeiliad Trwydded yr Eiddo Mr. Abdulhamit Salih Colakoglu;

(vi) yr angen i ystyried adolygu'r cais gan ystyried Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor; Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol; deddfwriaeth berthnasol arall a sylwadau perthnasol a dderbyniwyd, a

(vii) yr opsiynau sydd ar gael i'r pwyllgor tra'n penderfynu ar y cais.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu'r adroddiad gan fanylu ar ffeithiau'r achos. Fe dynnodd sylw hefyd at wybodaeth ychwanegol oedd wedi cael ei ddosbarthu i bob parti ers cyhoeddi'r adroddiad oedd yn cynnwys (1) cronoleg lluniau fideo teledu cylch caeedig ar 30 Mawrth oedd wedi cael eu gadael allan o Atodiad 14 y papurau, a (2) cyflwynodd Heddlu Gogledd Cymru ddau adroddiad am wybodaeth bellach a datblygiadau diweddar yn yr eiddo. Fe nodwyd hefyd y byddai'r Goruchwyliwr Safle Dynodedig – Mr. Nihat Colakoglu yn cynrychioli Deiliad Trwydded y Safle – Mr. Abdulhamit Salih Colakoglu yn ei absenoldeb.

CYFLWYNIAD YR YMGEISYDD (HEDDLU GOGLEDD CYMRU)

Roedd Cyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu Mr. Gareth Preston a Swyddog Trwyddedu'r Heddlu PC Manus Sheridan yn bresennol ar ran Heddlu Gogledd Cymru.

Wrth gyflwyno'r achos dros yr Heddlu, awgrymodd Mr. Preston fod rheolwyr y safle wedi methu'n llwyr â chadw at yr amcanion trwyddedu, yn enwedig diogelwch y cyhoedd, ac o ystyried y pandemig byd eang, roedd hynny'n anfaddeuol. Cafwyd gwared ar y rheolwr ar y pryd, Derek Coulton fel Goruchwyliwr Safle Dynodedig yn 2014 yn dilyn Adolygiad blaenorol gan yr Heddlu, ond roedd wedi parhau fel rheolwr gyda chyfrifoldeb dydd i ddydd ar yr eiddo. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o reolaeth weithgar gan y Goruchwyliwr Safle Dynodedig na Deiliad Trwydded yr Eiddo. Y sail ar gyfer yr adolygiad yw methu â hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu, yn enwedig diogelwch y cyhoedd ac atal trosedd ac anrhefn.

Fe fanylodd Cyfreithiwr yr Heddlu ar y dystiolaeth gynhwysfawr a ddarparwyd yn y cais i adolygu, a thynnodd sylw at y digwyddiadau niferus yn ystod mis Mawrth ac Ebrill 2020 oedd yn dangos yn glir fod yr eiddo wedi bod yn masnachu gan dorri rheolau'r Coronafeirws a rhoi diogelwch y cyhoedd mewn perygl. Roedd y dystiolaeth yn cynnwys cudd-wybodaeth ac adroddiadau i'r heddlu ynglŷn â masnachu ynghyd ag ymchwiliadau dilynol ac ymweliadau gan yr heddlu i'r eiddo, roedd rhai o'r rhain wedi cael eu cyfnerthu gan fideo teledu cylch caeedig o'r eiddo ers hynny. Fe awgrymwyd fod Derek Coulton wedi mynd ati'n fwriadol i dwyllo'r heddlu a'r awdurdod trwyddedu yn ystod y cyfnod yma, gan ddweud mai gwaith trwsio/atgyweirio oedd yn cael ei wneud fel esgus bod pobl yn yfed yn yr eiddo, ac o ran lluniau fideo cylch caeedig, roedd wedi bod yn fwriadol rhwystrol. Mae'n ymddangos bod fideo teledu cylch caeedig a gasglwyd o'r eiddo yn dangos amhariad â'r system, ac ar ôl archwiliad fforensig, roedd fideo a gafodd ei ddileu wedi cael ei adennill oedd yn cyd-fynd ag amseroedd digwyddiadau penodol ac yn cyfnerthu'r adroddiadau hynny.

Fe dynnodd Cyfreithiwr yr Heddlu sylw hefyd at wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan yr Heddlu (a ddosbarthwyd i bob parti'n flaenorol) oedd yn ymwneud â datblygiadau diweddar a gwybodaeth perthnasol pellach. Cyfeiriwyd yn benodol at y canlynol -

- bod yr eiddo wedi cynnal cyfarfod clwb ar 6 Awst gyda lluniau ar gyfryngau cymdeithasol yn dangos diffyg llwyr o geisio cadw pellter cymdeithasol nac unrhyw fesurau i atal y feirws. Cafodd adroddiad gan Swyddog lechyd yr Amgylchedd a fynychodd yr eiddo (gyda dau heddwes) ar 7 Awst ei ddarllen, gan dynnu sylw at y diffyg mesurau diogelwch i amddiffyn cwsmeriaid a'r rhai allai ddod i gysylltiad â'r feirws. Fe dynnwyd sylw hefyd at y sylwadau a wnaed ar gyfryngau cymdeithasol oedd yn deillio o adrodd ar yr Adolygiad yn y wasg leol.
- roedd Rheolwr newydd wedi bod yn yr eiddo ers 18 Awst ac fe awgrymwyd fod angen gwyllo rheolwyr yr eiddo'n ofalus gan fod pob parti yn bartner busnes achos, a darparwyd manylion cysylltiadau i eiddo trwyddedig eraill hefyd i ddangos y byddai unrhyw newid i reolwyr rhwng yr unigolion hynny yn destun pryder. Oherwydd natur y berthynas rhwng y partiön, awgrymodd yr Heddlu ei bod yn debygol iawn y byddai'r steil rheoli annerbyniol yn parhau heb newid clir

mewn cyfeiriad ac unigolion. O ystyried hynny a natur y perygl i'r cyhoedd, nid oedd cyfryngu yn cael ei ystyried yn gymesur yn yr achos hwn. Yn amlwg, roedd rheolwyr yr eiddo wedi tanseilio amcanion trwyddedu ac wedi rhoi pobl mewn perygl o drosglwyddo'r feirws pan oedd y cyngor yn hollol glir.

Fe ymatebodd Cyfreithiwr yr Heddlu i'r sylwadau a gyflwynwyd gan Derek Coulton (Atodiad C yr adroddiad) fel a ganlyn -

- fe honnodd fod yna nam ar y system teledu cylch caeedig o dro i dro, ond ni chafodd yr awdurdod trwyddedu wybod am unrhyw nam, fel sy'n ofynnol yn ôl amodau trwyddedu.
- fe gadarnhaodd nad oedd Deiliad Trwydded yr Eiddo yn rhan o'r busnes nac yn ymwybodol o'r gwaith oedd yn cael ei wneud yn yr eiddo, gan brofi nad oedd Deiliad Trwydded yr Eiddo yn goruchwyllo ac nad oedd ganddynt ddiddordeb
- yr honiad fod gweithwyr yn yr eiddo wedi cael ei wrthbrofi gan fideo teledu cylch caeedig ac yn dangos yn glir eu bod yn twyllo gan honni fod gwaith yn cael ei wneud
- nid oedd sôn am yr honiad o bobl yn cuddio yn yr eiddo yn ystod ymweliad yr heddlu ar 29 Mawrth nac eglurhad am bobl yn yfed yn yr eiddo nac arian yn y bar oedd yn amlwg ar gyfer gwerthu alcohol
- o ran y llythyr gan yr unigolyn yn honni eu bod wedi gwneud gwaith yn yr eiddo, nid oedd y llythyr yn manylu ar ddyddiadau y gwnaed y gwaith ac nid oedd yn darllen fel crefftwr amhleidiol na contract rheolaidd
- darparwyd lluniau i ddangos bod y gwaith wedi cael ei wneud ond roedd teledu cylch caeedig yn dangos fod y gwaith eisoes wedi cael ei wneud a bod pobl yn yfed yn y bar.

O ran y llythyrau eraill a dderbyniwyd gan bartïon â diddordeb, fe nodwyd fod y prif bwyslais ar gollu tafarn ac effaith cymunedol ond roedd y rheolwyr presennol wedi profi eu bod yn annerbyniol ac yn anniogel. Fe soniodd y llythyr sylwadau terfynol gan gymydog cyfagos hefyd am bryderon mewn cysylltiad â rheoli'r safle.

Gan gloi cyflwyniad yr Heddlu, fe dynnodd PC Sheridan sylw at y canlynol -

- ar 29 Mawrth, dywedodd Derek Coulton wrth yr Heddlu mai dim ond fo a'i wraig oedd yn yr eiddo, ond o'r lluniau teledu cylch caeedig, roedd modd gweld pobl yn cuddio yn y fflat yn ystod ymweliad yr Heddlu, ac roedd hyn yn ymgais fwriadol i'w twyllo
- cyfeiriwyd at sylwadau yn yr wybodaeth ychwanegol a ddosbarthwyd gan yr Heddlu ac roedd yn credu fod yr hyn oedd yn digwydd ar y safle yn gyfrinach agored
- fe ailadroddodd pryderon yr Heddlu ynglŷn â'r Rheolwr newydd o ystyried y digwyddiadau y cyfeiriwyd atynt mewn manau trwyddedig eraill roeddynt yn eu gweithredu
- fe dynnodd sylw at ymgeisiau bwriadol gan Derek Coulton i dwyllo'r Heddlu o ran y fideo teledu cylch caeedig a dywedodd fod cydweithwyr a gafodd afael ar y fideo wedi dweud eu bod yn credu iddo gael ei ddileu yn fwriadol

- ar ôl edrych ar bob fideo teledu cylch caeedig yn bersonol, roedd hi'n amlwg nad oedd unrhyw waith wedi cael ei wneud yn yr eiddo yn ystod y cyfnod y maent yn ei honni.

Gan ymateb i gwestiynau, cadarnhaodd PC Sheridan nad oedd unrhyw drosedd wedi cael ei chofnodi yn yr eiddo cyn i'r dystiolaeth gael ei chyflwyno yn y cais i adolygu presennol, ers cael gwared ar Derek Coulton fel Goruchwyliwr Safle Dynodedig yn 2014.

SYLWADAU PARTÏON Â DIDDORDEB

Cyflwynwyd sylwadau gan bedwar parti â diddordeb – Mr. Derek Coulton, Y Cynghorydd David Williams (Ward Dyserth), Cyngor Cymuned Dyserth a Ms. B. Glover (Atodiad C yn yr adroddiad). Fe nodwyd nad oedd Cyngor Cymuned Dyserth a Ms. B. Glover yn bresennol i ddarllen eu sylwadau ac y dylid eu cymryd fel y maent yn cael eu darllen.

Ymatebodd Mr. Derek Coulton i'r materion penodol a godwyd gan yr Heddlu fel hyn -

- fe ymddiheurodd am yr hyn a ddigwyddodd gan ddweud ei fod wedi ymddiswyddo fel Rheolwr ac nad oedd ganddo unrhyw beth i wneud â'r eiddo bellach
- dywedodd nad oedd cyffuriau yn gysylltiedig â chael gwared arno fel Goruchwyliwr Safle Dynodedig yn 2014
- fe wrthbrofodd honiadau a wnaed fod yr eiddo wedi bod ar agor yn ystod y cyfnod clo
- mynnodd fod pobl yn yr eiddo yno i wneud gwaith amrywio, yn cynnwys gweithwyr a'u gwragedd, a dim mwy na phump o bobl yn bresennol ar unrhyw adeg
- cyfaddefodd roi diodydd i weithwyr yn yr eiddo fel ffordd o ddiolch iddynt ac roedd unrhyw arian a gymerwyd ar gyfer y diodydd yn mynd i gael ei roi i elusen
- fe eglurodd ei fod wedi ffonio'r Adran Drwyddedu i holi a fyddai plymwr yn cael dod i mewn i'r eiddo gan ei fod yn ansicr
- cyfeiriodd at yr offer teledu cylch caeedig gan ddweud fod yna nam ar y system a oedd wedi cael ei drwsio sawl gwaith; roedd yr iCould wrth gefn; doedd ganddo ddim i'w guddio o ran hynny ac roedd wedi rhoi'r fideo teledu cylch caeedig i'r Heddlu yn ddi-ffws
- roedd wedi digio â'r adroddiad arolygu ar fesurau diogelwch a gynhaliwyd ar 7 Awst yn cynghori am fesurau diogelwch a oedd ar waith
- roedd yn erbyn cyffuriau ac o ran y digwyddiad ar 21 Mawrth, roedd y troseddwr tu allan ond yr Heddlu ddaeth ag o i mewn

Cyfeiriodd y Cynghorydd David Williams at ei sylwadau ysgrifenedig a dywedodd fod y dafarn yn hanesyddol wedi bod yn rhan fywiog o'r gymuned ac yn ganolbwynt ac yn ased i'r gymuned. Er nad oedd yn beirniadu nac yn cymeradwyo'r hyn oedd wedi digwydd yn yr eiddo, fe siaradodd ar ei ran ei hun, y Cyngor Cymuned a nifer o bobl Dyserth pan ddywedodd ei fod yn ystyried y byddai'n gam yn ôl petai'r safle yn peidio â bod yn dafarn, ac fe fyddai'n andwyol i'r gymuned. O ganlyniad, roedd

yn gobeithio bod modd dod o hyd i ffordd o gadw'r dafarn ar agor, gyda rheolwyr gwahanol efallai, a sicrhau ei dyfodol fel tafarn.

CYNRYCHIOLYDD DEILIAD TRWYDDED YR EIDDO

Yn absenoldeb Deiliad Trwydded y Safle Mr. Abdulhamit Salih Colakoglu, fe fynychodd Goruchwyliwr Safle Dynodedig Mr. Nihat Colakoglu ar ei ran.

Wrth gyflwyno ei sylwadau, fe honnodd Mr. Colakoglu -

- nad oedd ganddo unrhyw wybodaeth o'r hyn oedd wedi bod yn digwydd yn yr eiddo gan ei fod wedi bod yn hunan ynysu ar y pryd; nid oedd wedi ei gymeradwyo ac nid oedd yn ei esgusodi
- ni allai Deiliad Trwydded yr Eiddo fod yn gyfrifol gan ei fod allan o'r wlad ers mis Chwefror ac roedd yn gweithio mewn ysbyty yn Nhwrcki
- roedd y Rheolwr newydd wedi cael ei gyflogi yn seiliedig ar ei lwyddiant mewn tafarn/bwyty arall a'r gobaith oedd y byddai'n atgynhyrchu'r llwyddiant hwnnw yn nhafarn Y Bodunig
- fe ymatebodd i faterion a godwyd gan yr Heddlu ynglŷn ag eiddo eraill oedd yn cael eu rhedeg gan y rheolwyr gan roi eglurhad i liniaru'r pryderon a godwyd
- roedd yn credu fod gan yr Heddlu broblem bersonol gyda'r tîm rheoli gan nad oeddynt wedi cymryd rhan yn y broses gyfryngu.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad pellach ynglŷn â threfniadau rheoli a chadarnhaodd Mr. Colakoglu y trefniadau perchnogaeth/prydles oedd yn gysylltiedig â'r Bodunig a chysylltiadau gyda safleoedd trwyddedig a phartneriaid busnes eraill.

DATGANIAD TERFYNOL YR YMGEISYDD (HEDDLU GOGLEDD CYMRU)

Wrth roi'r datganiad terfynol dywedodd Cyfreithiwr yr Heddlu nad oedd yna gynllun gweithredu pendant a chilir ar waith ynglŷn â sut y byddai'r eiddo'n cael ei reoli'n iawn. Fe nodwyd na fyddai gan Derek Coulton unrhyw ran weithgar yn rhedeg yr eiddo, ond roedd y person a fyddai'n dod yn ei le yn destun pryder i'r Heddlu a oedd yn cwestiynu ei addasrwydd. Dewisodd y Goruchwyliwr Safle Dynodedig i beidio â chymryd camau rheoli yn ystod y cyfnod clo pan allai fod wedi defnyddio'r dechnoleg oedd ar gael iddo. Yn yr un modd, nid oedd y ffaith fod Deiliad Trwydded yr Eiddo dramor yn ei ddifeio o unrhyw gyfrifoldeb gan y gallai ddynodi pobl eraill i ymgymryd â thasgau, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth ei fod wedi gwneud hynny. Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd gan yr Heddlu yn ddiarnheudol o ran gweithgareddau yn yr eiddo ac roeddynt dal i fod yn arbennig o bryderus ynglŷn â rheolwyr yr eiddo a bod diogelwch y cyhoedd mewn perygl.

Ymatebodd PC Sheridan i sylwadau a wnaed yn ystod argymhellion, gan ddweud -

- nad oedd y Goruchwyliwr Safle Dynodedig wedi bod yn gwirio'r safle er ei fod yn byw gerllaw
- roedd yr archwiliad o fesurau diogelwch a gynhaliwyd ar 7 Awst wedi cael eu gwneud gan Swyddog Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor

- cadarnhaodd datganiadau'r ddau heddwys a fynychodd y digwyddiad cyffuriau ar 29 Mawrth fod y digwyddiad wedi digwydd y tu mewn i'r eiddo
- nid oedd yna broblem personol gyda rheolwyr yr eiddo, a dim ond ar ôl derbyn adroddiadau gan y cyhoedd y cafodd y cynhaliwyd ymchwiliad.

GOHIRIAD I YSTYRIED Y CAIS

Ar y pwynt hwn (11.40 am) caeodd y Cadeirydd y cyfarfod i bob parti arall, ac aeth yr Is-bwyllgor Trwyddedu i ystyried y cais mewn sesiwn breifat.

PENDERFYNIAD A'R RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD *dirymu'r Drwydded Eiddo.*

Y rhesymau dros y penderfyniad oedd -

Roedd yr Is-bwyllgor Trwyddedu wedi ystyried yr adroddiad yn ofalus ynghyd â'r sylwadau ysgrifenedig a wnaed gan y partion amrywiol a'r cyflwyniadau llafar yn ystod y gwrandawriad ac ymateb i gwestiynau. Roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y gyfraith a chanllawiau perthnasol fel rhan o'u trafodaeth.

Ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd, ac yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau yn yr eiddo yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2020 a nodwyd yn y dystiolaeth, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon fod yr eiddo wedi cael ei redeg mewn modd oedd yn groes i amcanion trwyddedu Atal Trosedd ac Anrhefn a Diogelwch y Cyhoedd. Roedd y dystiolaeth ychwanegol a gyflwynwyd mewn cysylltiad â chynnal cyfarfod clwb yn yr eiddo ar 6 Awst a diffyg cadw pellter cymdeithasol neu fesurau i atal y feirws yn ystod y cyfarfod hwnnw, a gafodd eu cyfnerthu ymhellach ar ôl archwiliad o fesurau diogelwch gan Swyddog Iechyd yr Amgylchedd ar 7 Awst, yn dangos eu bod yn barhau i fethu â rheoli hyd heddiw.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn fod angen i'r eiddo gael ei reoli'n iawn yn unol â chyfraith a chanllawiau perthnasol ac roeddynt yn ymwybodol o'r angen i warchod diogelwch y cyhoedd yn ystod y cyfnod anodd yma yn sgil argyfwng iechyd cyhoeddus presennol Covid-19. Roedd y methiant i reoli'r eiddo hyd heddiw wedi arwain at benderfyniad i ddirymu'r drwydded.

Er bod cydnabyddiaeth fod camau wedi cael eu cymryd yn ddiweddar i newid rheolwyr yr eiddo, o ystyried natur y berthynas rhwng y partion fel y nodwyd gan yr Heddlu a'u pryderon, nid oedd gan yr Is-bwyllgor unrhyw hyder y byddai'r methiannau rheoli presennol yn gwella o ganlyniad i'r cynigion hyn a phenderfynwyd yn unfrydol er mwyn atal trosedd ac anrhefn ac er mwyn hyrwyddo amcanion trosedd a diogelwch y cyhoedd, ei bod yn briodol i ddirymu trwydded safle.

Cafodd y partion grynodedb o'r penderfyniad yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw, a chyhoeddwyd penderfyniad â'r rhesymau llawn wedyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15 p.m.